# Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru)

# Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau
# 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

**Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

**Paratowyd y cyfrif o dan Baragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (c.41)**

# Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru)

# Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau
# 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

**CYNNWYS**


**RHAGAIR** ........ 3

Y Cefndir Statudol ........ 3

Adolygiad o 2023-24 ........ 5

Datblygiadau o ran Ardrethi Annomestig ........ 5

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIF** ........ 7

**DATGANIAD LLYWODRAETHIANT 2023-24** ........ 9

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD** ........ 13

**CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2024** ........ 17

**NODIADAU I'R CYFRIF** ........ 19

**CYFRIF ARDRETHI ANNOMESTIG (CYMRU)**
**CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU 2023-24**

**DEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1988**

**CYFUNO ARDRETHI ANNOMESTIG A'U HAILDDOSBARTHU I'R AWDURDODAU LLEOL A CHOMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDDU YNG NGHYMRU**

**Paratowyd y cyfrif o dan Baragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (c.41)**

## RHAGAIR

## Y Cefndir Statudol

1. Mae'r cyfrif ar gyfer 2023-24 yn dangos:

   a. symiau a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru yn 2023-24

      i. o dan Adran 54[1] mewn perthynas ag ardrethi annomestig a delir gan dalwyr ardrethi ar y rhestr Ardrethu Ganolog;

      ii. o dan baragraff 5(5)[2] mewn perthynas â swm dros dro ardrethi annomestig sydd i'w casglu yn ôl amcangyfrif yr Awdurdodau Bilio[3] yn 2023-24;

      iii. o dan baragraff 5(9) mewn perthynas â'r ardrethi ychwanegol a gasglwyd gan yr Awdurdodau Bilio yn sgil cyfrifo symiau terfynol ardrethi annomestig-a oedd yn ddyledus ar gyfer 2022-22 a'r blynyddoedd blaenorol, ac oddi wrth dalwyr ardrethi ar y rhestr ardrethi ganolog yn sgil ailgyfrifo'r symiau sy'n ddyledus; a

   b. taliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn 2023-24

      i. o dan baragraff 5(10) mewn perthynas ag ad-dalu cyfraniadau dros ben i Awdurdodau Bilio yn sgil cyfrifo symiau terfynol ardrethi annomestig a oedd yn ddyledus ar gyfer 2022-22 a'r blynyddoedd blaenorol,

      ii. ac i drethdalwyr ar y rhestr Ardrethu Ganolog yn dilyn ailgyfrifo'r symiau sy'n ddyledus o dan Adran 9(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Canolog) 1989; a

      iii. o dan baragraff 12 mewn perthynas ag ardrethi annomestig sy'n cael eu dosbarthu i Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl.

[1] Ac eithrio lle y nodir yn wahanol mae'r holl gyfeiriadau at ‘adrannau’ yn ymwneud â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Diwygiwyd Deddf 1988 yn arbennig gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Atodlen 12 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Deddf Ardrethi Annomestig 1994 a Deddf Llywodraeth Leol 2003.

[2] Ac eithrio lle y nodir yn wahanol mae'r holl gyfeiriadau at “baragraffau” yn ymwneud â pharagraffau o Atodlen 8 i Ddeddf 1988

[3] Awdurdodau Bilio yw Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. Awdurdodau Derbyn yw Awdurdodau Bilio a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

2. Cyfrifon cysylltiedig sy'n ymwneud â'r gwariant hwn yw Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweinidogion Cymru a chyfrif Cronfa Gyfunol Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

**Cyfuno a Dosbarthu Ardrethi Annomestig**

3. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu oddi wrth dalwyr ardrethi gan yr Awdurdodau Bilio neu sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru gan dalwyr ardrethi ar y Rhestr Ardrethi Ganolog. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddosbarthu'r cyfraniadau i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl (18 oed neu drosodd) ym mhob ardal weinyddol (Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol 2023-24, Rhifau 1 a 2). Mae'r holl ardrethi annomestig felly'n cael eu cyfuno a'u hailddosbarthu. Mae'r ffordd y mae'r pwll yn gweithredu'n cael ei llywodraethu gan Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a rheoliadau a wneir o dan adran 141.

4. Bwriedir i symiau y mae eu hangen ar gyfer gwneud taliadau gan Weinidogion Cymru ar gyfer ailddosbarthu ardrethi annomestig gael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriedir i dderbyniadau Gweinidogion Cymru o ardrethi annomestig gael eu hildio i Gronfa Gyfunol Cymru (adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Er hynny, er mwyn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Bilio, taliadau net yn unig sy'n cael eu gwneud. Mae'r cyfrif yn dangos fel eitemau ar y cyfrif yr holl hawliau ac atebolrwyddau ardrethi annomestig sydd wedi'u talu ac nid dim ond y symiau arian parod a dderbynnir neu a delir allan.

**Derbyniadau oddi wrth yr Awdurdodau Bilio (derbyniadau llai'r gost casglu)**

5. Cyfraniad Awdurdod Bilio i’r pwll ardrethi annomestig yw'r swm a fyddai'n daladwy gan y talwyr ardrethi yn ardal yr awdurdod os byddai'r awdurdod yn ymddwyn yn ddiwyd, ar ôl caniatáu ar gyfer rhai didyniadau penodedig (ee costau casglu ac adfer). Gwneir cyfrifiad dros dro o'r swm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud eu cyfrifiad eu hunain os byddent o'r farn bod cyfrifiad awdurdod bilio yn annhebygol o fod wedi'i wneud yn unol â rheoliadau (a wnaed o dan baragraff 4). Caiff Awdurdod Bilio ailgyfrifo ei gyfraniad dros dro yn ystod y flwyddyn os bydd y swm sy'n daladwy gan dalwyr ardrethi'n gostwng islaw'r trothwy penodedig. Mae Gweinidogion Cymru wedyn yn addasu taliadau'r Awdurdod Bilio yn unol â hynny.

**Addasiadau'r Blynyddoedd Blaenorol**

6. Ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i bob Awdurdod Bilio gyfrifo ei gyfraniad blynyddol, trefnu iddo gael ei archwilio ac anfon copi o'r ffurflen hawlio heb ei harchwilio at Weinidogion Cymru. Mae'r archwilydd penodedig wedyn yn cynnal yr archwiliad ac yn anfon yr hawliad gwreiddiol ymlaen, wedi'i ardystio a'i archwilio, at Weinidogion Cymru. Ar ôl i'r hawliad wedi'i archwilio ddod i law, mae unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i daliadau'r Awdurdod Bilio i gyd-fynd â'r cyfrifiad, naill ai trwy ad-dalu'r swm a ordalwyd neu fynnu taliadau ychwanegol gan yr awdurdod fel y bo'n briodol. Mae addasiadau'r blynyddoedd blaenorol a ddangosir yn y cyfrif hwn yn ymwneud â 2022-22 a'r blynyddoedd

blaenorol. Bydd addasiadau 2023-24 yn ymddangos yng nghyfrif ardrethi annomestig 2024-25.

7. Mae unrhyw newidiadau olynol i'r swm sy'n daladwy i'r Awdurdod Bilio yn y flwyddyn ariannol berthnasol (a allai ddigwydd, er enghraifft, oherwydd apeliadau a allai newid gwerthoedd ardrethol ôl-weithredol) yn cael eu trin fel addasiadau'r blynyddoedd blaenorol i gyfraniad y pwll am flwyddyn arall.

**Dosbarthu'r Pwll**

8. Mae swm sy'n cyfateb i amcangyfrif Gweinidogion Cymru o elw ardrethi annomestig yn cael ei ddosbarthu i'r Awdurdodau Derbyn bob blwyddyn. Mae'r swm i'w ddosbarthu'n cael ei gyfrifo gan Weinidogion Cymru cyn dechrau'r flwyddyn ariannol gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r eitemau i'w credydu a'u debydu i'r cyfrif yn y flwyddyn. Hwn yw'r swm dosbarthadwy. Mae'n annhebygol y byddai cyfanswm taliadau i'r pwll mewn unrhyw un flwyddyn yn gyfartal yn union â'r swm dosbarthadwy. Mae unrhyw warged neu ddiffyg ar y swm hwn yn cael ei gario ymlaen.

**Adolygiad o 2023-24**

9. Yn 2023-24, cafodd Gweinidogion Cymru £1,084 miliwn o ardrethi annomestig a thalodd £1,071 miliwn i'r Awdurdodau Derbyn. Mae'r cyfrif am y flwyddyn yn dangos gwarged cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd o £13 miliwn.

10. Daeth derbyniadau oddi wrth dalwyr ardrethi'r Rhestr Ganolog yn ystod 2023-24 i gyfanswm o £97 miliwn.

11. Mae'r diffyg o £8 miliwn a ddygwyd ymlaen o 2022-23 wedi'i ychwanegu at y cyfanswm gwarged o £13 miliwn ar gyfer 2023-24. Y gwarged a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024 felly yw £21 miliwn. Mae'r gwarged neu'r diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn yn cael ei ystyried yn y cyfrifiadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol fel bod yr holl symiau a delir i'r pwll ardrethi annomestig, dros amser, yn cael eu dosbarthu i Awdurdodau Derbyn.

**Datblygiadau o ran Ardrethi Annomestig**

Diwygio ardrethi annomestig

12. Mae pecyn gwaith ar y gweill i ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatganoli trethi mewn modd clir a sefydlog ac i ddiwygio trethi lleol yng Nghymru.

13. Ar 29 Mawrth 2022, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (ar y pryd) ddatganiad yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn ystod tymor y Senedd gyfredol. Roedd hyn yn adeiladu ar Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau a gyhoeddwyd ar ddiwedd tymor blaenorol y Senedd. Lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru ar 21 Medi 2022, gan ofyn am farn ar welliannau arfaethedig i'r system ardrethi annomestig. Daeth yr

ymgynghoriad i ben ar 14 Rhagfyr 2022 a chyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion ar 9 Chwefror 2023.

14. Cadarnhawyd y ffordd ymlaen mewn datganiad ar 2 Mai 2023. Cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ym mis Tachwedd 2023, ac fe gafodd ei basio gan y Senedd ar 16 Gorffennaf 2024.

Ailbrisio Ardrethi Annomestig

15. Ailasesir eiddo annomestig i bennu gwerth ardrethol priodol fel rhan o broses a elwir yn ailbrisio, a gynhelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Cynhaliwyd ymarfer ailbrisio yn seiliedig ar amodau'r farchnad ar 1 Ebrill 2021 a daeth i rym o 1 Ebrill 2023. Mae'r mesurau diwygio NDR a gyflwynwyd gan Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yn cyflwyno cylch ailbrisio tair blynedd yn y dyfodol.

16. Mae ailbrisio'n ymarfer niwtral o ran refeniw a chaiff ei gynnal i sicrhau tegwch yn y system ardrethi annomestig drwy ailddosbarthu'r cyfanswm sy'n daladwy rhwng talwyr ardrethi er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo.

17. Mae cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol wedi'i roi ar waith 1 Ebrill 2023 ar gyfer talwyr y rhestr leol a chanolog. Mae’r cynllun y rhoi rhyddhad trosiannol i bob talwr ardrethi y mae ei atebolrwydd yn cynyddu fwy na £300, o ganlyniad i ailbrisio. Caiff unrhyw gynnydd i atebolrwydd ardrethi annomestig o ganlyniad i ailbrisio ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd. Bydd yr holl dalwyr ardrethi yn talu eu hatebolrwydd llawn yn 2025-26, yn y flwyddyn olaf cyn yr ailbrisio nesaf a gynlluniwyd ar gyfer 1 Ebrill 2026.

**Archwilwyr**

18. Caiff y cyfrif ardrethi annomestig ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Dr Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a’r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**
**27 Tachwedd 2024**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIF

19. Mae Adran 129(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dynodi'r Ysgrifennydd Parhaol yn Brif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws Llywodraeth Cymru ym maes cyllid a materion eraill, lle bo'r rhain yn briodol, a thros reoli gofyniad net Gweinidogion Cymru am arian parod.

20. O dan Atodlen 8 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu cyfrif ardrethi annomestig. O dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018, caiff Gweinidogion Cymru gadw'r cyfrif ar unrhyw ffurf sy'n briodol yn eu barn hwy. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrif. Mae'n ofynnol i'r cyfrif gyflwyno yn briodol y derbyniadau a'r taliadau am y flwyddyn ariannol a'r balans a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

21. O dan Adran 133 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff y Prif Swyddog Cyfrifyddu ddynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Dynododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer y Grŵp sy'n ymgorffori rheolaeth ar y gyllideb a'r pwll ardrethi domestig, gan gynnwys paratoi'r cyfrif ardrethi annomestig hwn. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol o 1 Mawrth 2022 tan 31 Rhagfyr 2023. Cyfarwyddwr Cyffredinol Y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol o 1 Ionawr 2024 tan 8 Ebrill 2024. O'r pwynt hwnnw ymlaen, daeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol presennol yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Nid yw'r dynodiad hwn yn tynnu oddi wrth gyfrifoldeb cyffredinol yr Ysgrifennydd Parhaol dros y cyfrif ardrethi annomestig fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

22. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, dros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru, a thros gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a ddyroddir gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar sail canllawiau a gynhyrchir gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

23. Nodir y berthynas rhwng y Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, fel y'i disgrifir ym mharagraff 21, a'u priod gyfrifoldebau mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng y swyddogion o dan sylw.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

24. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno.  Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

**Dr Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**
**27 Tachwedd 2024**

## DATGANIAD LLYWODRAETHIANT 2023-24

### Cwmpas y Cyfrifoldeb

25. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safon uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu’r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

26. Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn llwyr o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Ni all, felly, ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd absoliwt. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, a'r prosesau i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

27. Roedd y system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 a hyd at gymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac roedd yn cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

### Datganoli Ariannol Ardrethi Annomestig a Chyfrifoldebau'r Gweinidogion.

28. Cafodd ardrethi annomestig eu datganoli’n ariannol i Weinidogion Cymru ar 1 Ebrill 2015 (mae’r cyfrifoldebau polisi wedi’u datganoli ers 1999). Mae'r refeniw o ardrethi annomestig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru bellach yn gysylltiedig yn fwy uniongyrchol â pherfformiad economi Cymru. O Ebrill 2015, daeth ardrethi annomestig yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru (gyda gostyngiad, o ganlyniad, i'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)).

29. Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol oedd yn gyfrifol am yr holl faterion yn ymwneud ag ardrethi annomestig a’r setliadau llywodraeth leol blynyddol o etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2021 tan fis Mawrth 2024. O fis Ebrill 2024, yn dilyn penodiad Prif Weinidog newydd Cymru, neilltuwyd y cyfrifoldeb dros faterion ardrethi annomestig, gan gynnwys polisi ardrethi a rheoli'r gyllideb a'r pwll ardrethi annomestig i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet. O fis Ebrill 2024 ymlaen mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio yn gyfrifol am ddosbarthu'r swm y gellir ei ddosbarthu drwy'r setliadau llywodraeth leol blynyddol.

30. Y **Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch** Cafodd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ei ymestyn tan 2023-24 i gefnogi adferiad busnes yn sgil yr heriau economaidd sydd wedi effeithio arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

31. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n defnyddio arian canlyniadol a dderbynnir gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, ni fydd y cynllun rhyddhad yn

cael unrhyw effaith ariannol ar y swm dosbarthadwy o ardrethi annomestig yn y dyfodol. Nid yw’r cynllun rhyddhad yn effeithio ar y cyfraniadau i’r Pwll a’r symiau a delir ohoni.

## Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

32. Defnyddir y cyfrif ardrethi annomestig i reoli elfen sylweddol o gyllid Llywodraeth Cymru a ddarperir i lywodraeth leol yng Nghymru, ac yn ogystal â chael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r Cyfrif hwn yn destun nifer o wiriadau rheoleiddio a rheoli mewnol.

33. Seilir symiau dosbarthadwy ardrethi annomestig ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar amcangyfrifon o'r swm a gaiff ei gasglu ac fe'u nodir yn Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol. Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU. Mae'r adroddiadau'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Gweinidogion ac yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru. Drwy gydol y flwyddyn ariannol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd wneud addasiadau i'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer casglu ardrethi annomestig. Mae'r adroddiadau'n destun cymeradwyo gan y Gweinidogion a rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

34. Mae rheolaethau penodol eraill sy'n gymwys yn cynnwys:

- Darperir yr amcangyfrifon o ardrethi annomestig i'w dosbarthu am y flwyddyn i ddod a rhagolygon ar gyfer blynyddoedd i ddod, ynghyd â nodiadau esboniadol ar ffynonellau a methodoleg, i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol iddi eu hystyried a'u cynnwys yn ei rhagolygon o gyllid cyhoeddus y DU.

- Drwy gydol y flwyddyn ariannol, adroddir ar y symiau o ardrethi annomestig a gasglwyd gan yr Awdurdodau Bilio i Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng cyflwyniadau ffurfiol. Mae'r cyflwyniadau hyn, yn benodol ffurflenni ND3R, yn destun archwiliadau a gynhelir gan archwilwyr allanol.

- Mae Incwm a Gwariant sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn ariannol fel rhan o’r gweithdrefnau diwedd y mis a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

## Effeithiolrwydd Rheolaeth Fewnol

35. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd gan sbectrwm eang o weithgareddau ac yn cael gwybodaeth drwy waith yr archwilwyr mewnol a hefyd y rheolwyr gweithredol yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol ac am weithredu ar sylwadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiadau. Fe'm cynghorwyd ar faterion risg a sicrwydd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

36. Mae gan Lywodraeth Cymru Wasanaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'n cynnal rhaglen o waith archwilio yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad drwyddo draw. Am y flwyddyn sy'n cael ei

gynnwys gan y Datganiad Llywodraethiant hwn, nid oedd unrhyw ddarnau o waith archwilio a wnaed yn benodol i ardrethi annomestig ond mae'r prosesau a'r gweithdrefnau yn y maes hwn yn bodoli mewn amgylchedd rheoli sydd wedi bod yn destun archwilio mewnol ac y bernir ei fod yn effeithiol.

37. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru (ARAC) ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun archwilio blynyddol ar waith. Roedd ARAC ar wahân hefyd ar gyfer Adfer wedi Covid a Llywodraeth Leol a oedd yn rhoi sicrwydd i'r prif ARAC. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn paratoi barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth. Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau'r Gwasanaeth i drafod y gweithgarwch presennol a materion penodol ynghylch rheolaeth fewnol.

38. Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae dull tryloyw a chydweithredol yn cael ei ddefnyddio a chynhelir cyfarfodydd cyswllt i rannu gwybodaeth.

39. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 roedd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol tan 31 Rhagfyr 2023 gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg yn gyfrifol o 1 Ionawr 2024 am weddill y cyfnod adrodd hyd at 8 Ebrill 2024. O'r pwynt hwnnw daeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol presennol yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer rheoli'r gyllideb a'r pwll ardrethi domestig, gan gynnwys paratoi'r Cyfrif hwn.

40. Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, a nodir yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol, yw y gall Llywodraeth Cymru, yn gyffredinol, gymryd sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n briodol ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol.

41. Gan ddefnyddio gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dros y flwyddyn, rhoddodd Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer 2023-24 sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol i Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y mathau o sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

42. Ar sail fy adolygiad o reolaethau mewnol a'r holl wybodaeth arall sydd ar gael imi, rwyf yn fodlon bod y rheolaethau ardrethi annomestig a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn yn briodol.

**Llywodraethu Gwybodaeth**

43. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gorfodol gofynnol i ddiogelu gwybodaeth yn Adrannau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol ar waith.

44. Mae rheoli risg ym maes gwybodaeth yn dal yn flaenoriaeth bwysig ar draws Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodwedd ar gofrestrau risg adrannol. Nid oedd unrhyw achosion o adrodd am golli gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r cyfrif ardrethi annomestig.

45. Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â'n gwybodaeth, mae'n hanfodol ein bod yn ddweud wrthynt sut i wneud hynny gan fod yr atebolrwydd cyfreithiol dros yr wybodaeth honno yn dal yn ein dwylo ni yn aml, hyd yn oed os y trydydd parti sy'n rhyddhau'r wybodaeth drwy gamgymeriad. Mae cymalau sicrhau gwybodaeth sy'n nodi'n glir sut y mae'n rhaid ymdrin â gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gofyniad safonol mewn contractau.

**Dr Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**
**27 Tachwedd 2024**

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyfrif Ardrethu Annomestig (Cymru) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau, Datganiad o Falansau a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail arian parod o dan Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r protocol a wnaed oddi tanynt gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno'n gywir falansau, derbyniadau a thaliadau Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben i ben ar 31 Mawrth 2024; ac
- wedi ei baratoi'n briodol yn unol ag Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r protocol a wnaed o dan hynny gan Weinidogion Cymru.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r derbynebau a'r taliadau a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Cynulliad; ac
- mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru). Nid yw fy marn ar ddatganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at

gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Rhagair ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Rhagair wedi'i baratoi yn unol â'r protocol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- Nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm; neu
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**
Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a chynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r protocolau a luniwyd yn ôl y gofynion hynny gan Weinidogion Cymru, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o ddeunydd camddatganiad, boed hynny oherwydd twyll neu wall. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn cyfrifol am sicrhau rheoledd-dra y trafodion ariannol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir

uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys ystyried polisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - chanfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyfrif Ardrethu Annomestig (Cymru) yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy orwneud rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru, a natur, amseru a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

**Cyfrifoldebau archwilydd eraill**

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y derbynebau a'r taliadau a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf hefyd yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a yw'r derbynebau a'r taliadau wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio’n wreiddiol. Cyfieithiad o’r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw’r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Tachwedd 2024

1 Chwarter Cyfalaf
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

**CYFRIF ARDRETHI ANNOMESTIG (CYMRU)**

**CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 Mawrth 2024**

| | Nodyn | 2023-24<br>£000 | 2022-23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | | |
| Cyfraniadau oddi wrth Awdurdodau Bilio | 2 | 985,894 | 1,034,229 |
| Cyfraniadau oddi wrth Dalwyr Ardrethi'r Rhestr Ganolog | 7 | 96,927 | 101,438 |
| Derbyniadau Ychwanegol Gros o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol ar gyfer 2022-22 a'r blynyddoedd blaenorol | 4 | 847 | 4,650 |
| **Cyfanswm y Derbyniadau** | | **1,083,668** | **1,140,317** |
| **Taliadau** | | | |
| Symiau a dalwyd i Awdurdodau Derbyn fel y Symiau Dosbarthadwy | 5 | 1,022,000 | 1,135,000 |
| Symiau a dalwyd i Awdurdodau Bilio o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol ar gyfer 2022-22 a'r blynyddoedd blaenorol | 4 | 48,639 | 48,761 |
| Symiau a dalwyd i Dalwyr Ardrethi'r Rhestr Ganolog o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Symiau a Ddosbarthwyd** | | **1,070,639** | **1,183,761** |
| Gwarged/(Diffyg) cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd am y flwyddyn | | **13,029** | **(43,444)** |

**Datganiad o Falansau**

| | | 2023-24<br>£000 | 2022-23<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | | 8,043 | 51,487 |
| Gwarged/(Diffyg) cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd am y flwyddyn | | 13,029 | (43,444) |
| Balans ar 31 Mawrth | 8 | **21,072** | **8,043** |

**Dr Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**
**27 Tachwedd 2024**

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r Cyfrif hwn.

## NODIADAU I'R CYFRIF

1 O dan baragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif, a elwir yn Gyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru), ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol. Mae'r cyfrif yn cael ei baratoi ar sail arian parod a rhaid iddo gyflwyno yn briodol y derbyniadau a'r taliadau am y flwyddyn ariannol a'r balans a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Pharagraff 1(4) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Bilio gyfrifo eu cyfraniad ardrethi annomestig am y flwyddyn cyn iddi ddechrau ar sail rhai rhagdybiaethau penodedig (y swm dros dro): paragraff 5(2) ac i wneud eu cyfraniad mewn rhandaliadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn (paragraff 5(5)). Cyfanswm y cyfraniadau a gyfrifwyd gan yr Awdurdodau Bilio ar gyfer 2023-24 oedd £986 miliwn.

3 Ar ôl diwedd y flwyddyn, mae'r cyfraniad yn cael ei ailgyfrifo ar sail gwybodaeth alldro (paragraff 5(6)) a gwneir taliadau addasu i'r Awdurdodau Bilio neu ganddynt fel y bo'n briodol.

4 Roedd yr addasiadau alldro a wnaed yn cynnwys derbyniadau o £0.8 miliwn gan Awdurdodau Bilio a thaliadau o £48.6 miliwn a wnaed i Awdurdodau Bilio. Cafodd y rhain eu hildio a chodwyd amdanynt ar Gronfa Gyfunol Cymru.

5 Talodd Gweinidogion Cymru allan y swm dosbarthadwy o £1,022 miliwn ar gyfer 2023-24, fel y nodir yn yr Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer 2023-24 (fel y'i diwygiwyd). Talwyd y swm dosbarthadwy i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'w poblogaethau oedolion preswyl.

6 Er bod y cyfrif yn dangos swm llawn cyfraniadau oddi wrth yr Awdurdodau Bilio a'r swm dosbarthadwy, yn ymarferol mae'r symiau hyn yn cael eu debydu yn erbyn ei gilydd a dim ond taliadau net sy'n cael eu gwneud. Mae hyn yn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Gweinidogion Cymru a'r Awdurdodau Bilio.

7 Ar 31 Mawrth 2024, roedd Cyfrif Derbyniadau'r Rhestr Ganolog yn dangos balans o ddim, am fod cyfanswm y derbyniadau o £96.9 miliwn am y flwyddyn wedi'i ildio i Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd Cyfrif Taliadau'r Rhestr Ganolog hefyd yn dangos balans o ddim.

8 Mae gwargedau ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cario ymlaen trwy ddebydu'r cyfrif am y flwyddyn a chredydu cyfrif y flwyddyn ganlynol. Mae unrhyw ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol trwy gredydu cyfrif y flwyddyn bresennol a debydu cyfrif y flwyddyn ganlynol. Diben hyn yw sicrhau, pan gymerir blynyddoedd ynghyd, fod yr holl ardrethi annomestig sy'n cael eu talu i'r pwll yn gyfwerth â'r symiau sy'n cael eu dosbarthu i'r Awdurdodau Derbyn.